Office of the Traffic Commissioner Wales
Swyddfa’r Comisiynydd Traffig Cymru

PSV350A

# Cais i gofrestru gwasanaeth bws safonol yn Lloegr a Chymru: Ffurflen Atodol - cais am fyr rybudd

**Gwybodaeth am y ffurflen hon**

Dylech ddefnyddio’r ffurflen hon gyda’r ffurflen gofrestru PSV350 neu’r ffurflen canslo a newidiadau PSV355 ym mhob achos lle mae’r cyfnod rhybudd yn llai na’r cyfnod rhybudd gofynnol (42 diwrnod yn Lloegr neu 56 diwrnod yng Nghymru).

**Dylech ddarparu llythyr o gefnogaeth gan yr awdurdod lleol.** Bydd hyn yn cael ei ystyried gyda'ch cais.

Os dymunwch amrywio’r amserlen ar gyfer yr wythnos gyfan neu ran o’r wythnos sy’n cynnwys 24 Rhagfyr, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu unrhyw ŵyl banc, nid oes angen amrywiad ffurfiol.Rhaid i chi gyflwyno hysbysiad o fwriad i'r Comisiynydd Traffig 21 diwrnod cyn i'r amrywiad ddod i rym. Gallwch e-bostio manylion y gwasanaeth yr effeithir arno a dyddiau perthnasol i: bus-registrations@otc.gov.uk

Peidiwch ag anfon at Swyddfa'r Comisiynydd Traffig ar ei ben ei hun.

Mae rhagor o ganllawiau ar wasanaethau bws lleol ar gael yma:
Bydd y Canllaw i gofrestru gwasanaethau bysiau lleol hefyd yn eich helpu i gwblhau eich cais.

Os ydych yn cofrestru gwasanaeth yn Lloegr darllenwch y Canllawiau ar hysbysu awdurdod lleol am wasanaeth bws.

Cyfeiriwch at Ddogfen Statudol yr Uwch Gomisiynydd Traffig ar Weithrediadau PSV am ragor o wybodaeth.

**Mae rhoi gwybodaeth ffug neu addasu'r ffurflen gais yn drosedd a gall arwain at erlyniad.Gallai hefyd arwain at eich cerbyd(au} yn cael eu powndio.**

**Llenwi'r ffurflen**

Cwblhewch yr holl gwestiynau perthnasol yn y meysydd a ddarperir.Lle bod angen rhagor o le, naill ai rhowch y wybodaeth hon ar gorff yr e-bost os ydych yn ei chyflwyno’n electronig neu ar ddalen o bapur ar wahân os ydych yn ei chyflwyno drwy’r post.

Gallwch naill ai:

- Cwblhau'r ffurflen yn llawn yn electronig a’i chyflwyno gyda’r holl ddogfennaeth ategol (os yn bosibl, atodwch eich Manylion Talu

ar wahân) trwy e-bost i:

bus-registrations@otc.gov.uk

- Cwblhau'r cais gan ddefnyddio inc du gan sicrhau bod y ffurflen wedi cael ei chwblhau'n llawn a'i chyflwyno gyda'r holl dystiolaeth ategol drwy'r post i:

Office of the Traffic Commissioner
Quarry House
Quarry Hill
Leeds
LS2 7UE

**MANYLION YR YMGEISYDD**

**1. Enw lle cedwir eich trwydded gweithredwr PSV neu drwydded bws cymunedol**

**2. Cyfeirnod cofrestru y mae'r cais hwn am fyr rybudd yn ymwneud ag ef**

**3. Rhif gwasanaeth y mae'r cais hwn am fyr rybudd yn ymwneud ag ef**

**4. Gofynnaf am ganiatâd y Comisiynydd Traffig i:**

**Gofrestru** ☐ **Amrywio** ☐ **Canslo** ☐

**gwasanaeth bws lleol gyda llai na 42 diwrnod o rybudd (yn Lloegr} neu 56 diwrnod o rybudd (yng Nghymru} ar fyr rybudd o dan y seiliau canlynol a nodir yn Rheoliad 7(2) o'r Rheoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (Cofrestru Gwasanaethau Lleol}) 1986:**

☐ (a) **cofrestru** neu **amrywio** gwasanaeth (neu ran o wasanaeth) a fydd yn sylweddol debyg i wasanaeth (neu ran o wasanaeth) sydd wedi peidio â gweithredu neu sy'n peidio â gweithredu, a'i ddisodli; **(Rhowch enw'r gweithredwr a chyfeirnod cofrestru'r gwasanaeth sydd wedi dod i ben isod)**

☐ (b) **amrywio** neu **ganslo** cofrestriad gwasanaeth safonol nad yw naill ai ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol neu nad yw'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ganddynt; (e.e. gwaith neu wasanaethau ysgol}

☐ (c) **amrywio** neu **ganslo** cofrestriad gwasanaeth mewn ymateb i sylwadau gan berson awdurdodedig (awdurdod traffig neu brif swyddog heddlu) ar fater sy'n ymwneud â rheoleiddio traffig ffyrdd neu ddiogelwch ar y ffyrdd; **(Os dewisir yr opsiwn hwn amgaewch dystiolaeth e.e. copi o lythyr gan yr awdurdod traffig neu'r heddlu}**

☐ (d) **cofrestru** manylion gwasanaeth newydd neu amrywio'r cofrestriad i ychwanegu at wasanaeth presennol er mwyn darparu gwasanaeth am gyfnod nad yw'n fwy na 21 diwrnod, mewn cysylltiad â digwyddiad neu achlysur penodedig a fydd yn achosi galw ychwanegol am wasanaeth;

☐ (e) **amrywio** cofrestriad drwy addasu'r amserlen heb effeithio'n sylweddol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir, ac mae'r amseriadau wedi'u haddasu naill ai-

(i) dim mwy na 10 munud yn gynharach neu'n hwyrach na'r rhai yn yr amserlen gofrestredig, neu

(ii) y mae'n ofynnol addasu'r gwasanaeth i amrywiad mewn rheilffordd gyswllt, fferi neu gwasanaeth awyr;

**(Os (ii), gwasanaeth cysylltu, rhowch fanylion y gwasanaeth isod)**

☐ (f) **amrywio**'r cofrestriad yn ystod cyfnod nad yw'n fwy nag 14 diwrnod mewn ymateb i wyliau cyhoeddus a gyfyngir i'r gymdogaeth berthnasol neu wyliau a gymerir gan gyfran sylweddol o boblogaeth y gymdogaeth honno; **(Rhowch fanylion isod)**

☐ (h) lle, oherwydd amgylchiadau na ragwelwyd yn rhesymol, eich bod wedi methu â gwneud cais mewn da bryd ar gyfer y cyfnod rhybudd;**(ni fydd penderfyniadau masnachol yn cael eu derbyn fel arfer, rhowch fanylion yr amgylchiadau na rhagwelwyd isod)**

☐ (i) **cofrestru** neu **amrywio** cofrestriad er mwyn bodloni gofyniad trafnidiaeth gyhoeddus brys ac eithriadol.
**(Rhowch fanylion y gofyniad brys ac eithriadol isod)**

**DATGANIAD**

Rwy'n datgan,

- hyd eithaf fy ngwybodaeth, fod y wybodaeth a roddais yn wir ac yn gywir.
- Rwyf wedi anfon copi o'r ffurflen hon a'r dogfennau ategol at bob un o'r awdurdodau lleol y bydd y gwasanaeth hwn yn gweithredu yn eu hardal a byddant yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion cynllun awdurdodau lleol.

**Llofnod** - cliciwch isod i uwchlwytho llofnod electronig neu lofnodi'r ffurflen bapur yn gorfforol

**Dyddiad**

**Enw mewn PRIF LYTHRENNAU**

**Swydd**

**DIOGELU DATA**

Mae hysbysiad prosesu teg y Comisiynwyr Traffig yn dweud wrthych beth y gallwch ei ddisgwyl pan fydd comisiynydd traffig Prydain Fawr (y rheolydd data) yn casglu eich data.Bydd Comisiynydd Traffig yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol fel rhan o'i waith fel yr awdurdod cymwys ar gyfer asesu mynediad at alwedigaeth gweithredwyr trafnidiaeth ffordd. Gallwch weld yr hysbysiad prosesu teg yma: https://www.gov.uk/government/publications/traffic-commissioners-for-great-britain- privacy-notice.

Fel arall, gallwch ofyn am gopi papur drwy ffonio 0300 123 9000.

**NODWCH: mae'n drosedd rhoi gwybodaeth ffug yn y cais hwn** Beth sydd

angen i chi ei wneud

- Darllenwch y nodiadau canllaw uchod 'am y ffurflen hon' cyn llenwi'r ffurflen
- Sicrhewch eich bod wedi ei lofnodi
  Dylid anfon y cais drwy e-bost at: bus-registrations@otc.gov.uk neu ei bostio i: Swyddfa'r Comisiynydd Traffig, Y Swyddfa Drwyddedu, Quarry House, Quarry Hill, Leeds LS2 7UE